

CYTUNDEB ABERTHU CYFLOG AR GYFER CAR

AMRYWIAD I GONTRACT CYFLOGAETH CYFLOGEION

ENW'R CYFLOGWR: RHIF

CYFLOGRES:

DYDDIAD DECHRAU'R BRYDLES:

DYDDIAD TERFYNU'R BRYDLES:

Mae **Cyngor Sir Gar** (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y cyflogwr) yn cynnig, yn amodol ar dderbyn eich cydsyniad ysgrifenedig, i amrywio telerau ac amodau eich contract cyflogaeth. Y canlyniad terfynol fydd aberthu swm o gyflog fel y nodir isod; yn gyfnewid, bydd y cyflogwr yn darparu car ar brydles ichi am gyfnod penodol o fisoedd, i gynnwys dyraniad blynyddol o filltiroedd busnes a phreifat fel y manylir yn eich cais a'ch dyfynbris.

Drwy lofnodi'r hysbysiad hwn, rydych chi'n cytuno i'r canlynol:

1. y bydd eich cyflog gros yn cael ei newid a'i leihau **£0,000.00** y flwyddyn; dyma gyfanswm y gost o ddarparu eich car dewisol ichi
2. mae ymrwymo i'r cytundeb hwn yn gosod ymrwymiad ariannol arnoch am gyfnod y cytundeb
3. rydych wedi darllen, ac wedi cytuno i gydymffurfio â thelerau ac amodau defnyddio'r Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Car (a ddarparwyd ichi)
4. nid oes unrhyw amgylchiadau sy'n hysbys i chi, ar adeg ymuno â'r Cynllun Aberthu Cyflog ar gyfer Car, a fyddai'n achosi ichi derfynu'r contract yn gynnar
5. os byddwch yn gadael eich cyflogaeth neu fod angen ichi ddychwelyd y car yn ystod cyfnod y contract ar gyfer aberthu cyflog, o dan rai amgylchiadau bydd yn ofynnol ichi falu cosb terfynu cynnar yn unol â rheolau'r cynllun
6. mae cerbyd modur yn cael ei darparu ichi a fydd yn golygu eich bod yn cael Budd-dal Car Cwmni, y bydd treth incwm yn ddyledus arno yn unol â rheolau CThEF, a all amrywio o bryd i'w gilydd

Ni fydd yr amrywiad hwn i'ch telerau cyflogaeth yn parhau mewn grym ond am gyfnod prydlesu'r car. Mae'r holl delerau ac amodau eraill heb eu newid. Mae'r cynllun yn caniatáu ichi optio i mewn neu allan o'r trefniant aberthu cyflog pan fo newid yn eich ffordd o fyw yn "newid yn sylweddol" eich amgylchiadau ariannol.

Gweler yr wybodaeth bwysig isod

Bydd y diwygiad hwn yn dod i rym o'r diwrnod cyflog cyntaf ar ôl i'ch car gael ei ddanfôn atoch.

RHAID I CHI LOFNODI A DYCHWELYD Y DDOGFEN HON CYN ARCHEBU EICH CERBYD

LLOFNOD Y CYFLOGAI: DYDDIAD:

Gwybodaeth bwysig

Mae'r trefniant aberthu cyflog hwn yn caniatáu i chi dderbyn car yn gyfnewid am ostyngiad yn eich cyflog gros. Drwy wneud hyn byddwch yn arbed treth incwm, Yswiriant Gwladol, a chyfraniadau pensiwn (os yw'n berthnasol) ar swm y cyflog a aberthir.

Mae cymryd rhan yn y trefniant aberthu cyflog yn wirfoddol ac, yn gyffredinol, mae o fudd ariannol i chi; fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd gall fod effaith ariannol andwyol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn yr adran Cwestiynau cyffredin yn amlygu sefyllfaoedd i'w hystyried cyn ymrwymo i drefniant aberthu cyflog. Nid yw hyn yn gyfystyr â chynghor ac fe'i cynigir fel canllaw yn unig. Fe'ch cyngorir i geisio cyngor annibynnol ar effaith trefniant aberthu cyflog os oes angen.

Gall aberthu cyflog effeithio ar swm y tâl statudol y mae cyflogai'n ei dderbyn. Gall achosi i rai cyflogeion golli eu hawl iddo yn gyfan gwbl.

Mae gostyngiad mewn cyflog o ganlyniad i drefniadau aberthu yn golygu y gall taliadau statudol cysylltiedig â gwaith (taliadau a delir gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac yn seiliedig ar enillion cyfartalog dros gyfnod penodol, megis tâl mamolaeth statudol a thâl salwch statudol) gael eu heffeithio hefyd. Hwn yw'r ffigur cyflog gostyngol, ar ôl cymhwyso'r aberth, a fydd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r taliadau hyn. Dylech fod yn ymwbyddol y gallai eich dewis i aberthu cyflog olygu nad ydych yn gymwys ar gyfer taliadau statudol os byddwch yn dymuno cymryd, er enghraifft, absenoldeb mamolaeth â thâl, absenoldeb mabwysiadu â thâl, absenoldeb rhiant â thâl, absenoldeb rhiant a rennir â thâl neu'n dymuno hawlio tâl salwch statudol.

Os oes gennych unrhyw amheuan ynghylch sut mae trefniant aberthu cyflog yn effeithio arnoch chi'n bersonol rydym yn argymhell eich bod yn ceisio cyngor annibynnol priodol.
[PREIFAT A CHYFRINACHOL]